# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 25AIN GORFFENNAF, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2024)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Linda Ann Jones

Elfed Williams (Cadeirydd)

John Brynmor Hughes

Huw Rowlands (Eilydd)

## Aelodau Lleol

Jac y Do - Cynghorydd Cai Larsen
MotoCamp Cymru – Cynghorydd Dyfrig Siencyn

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 5 - 7

JAC Y DO, CLWB CEIDWADWYR, CAERNARFON, GWYNEDD
LL55 1RT.

I ystyried y cais

## 5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 8 - 10

MOTOCAMP CYMRU, FFORDD PEN Y CEFN, DOLGELLAU, LL40 2ES

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **25/07/2024** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Jac Y Do, Clwb y Ceidwadwyr, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RT** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1 CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Jac Y Do, Clwb y Ceidwadwyr, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RT. Mae'r ymgeisydd, Non Edwards, yn gwneud cais am drwydded eiddo ar gyfer tafarn a bwyty yng Nghaernarfon.

1.2 Mae'r cais yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â Cherddoriaeth Fyw ac wedi'i Recordio y Tu Mewn, Lluniaeth Hwyr yn y Nos ar yr Eiddo a Chyflenwi Alcohol ar ac oddi ar yr Eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

Gweler y tabl isod am fanylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedu:

**Oriau Agor:**
**Dydd Sul 12:00 – 00:30**
**Dydd Llun 12:00 – 00:30**
**Dydd Mawrth 12:00 – 00:30**
**Dydd Mercher 12:00 – 00:30**
**Dydd Iau 12:00 – 00:30**
**Dydd Gwener 12:00 – 00:30**
**Dydd Sadwrn 12:00 – 00:30**

**Nos Galan - 12:00 – 4:00**
**Ddydd Gŵyl San Steffan - 12:00-03:00**

**Gweithgareddau Trwyddedig:**

**Cerddoriaeth Fyw - Tu mewn yn unig:**
**Dydd Sul 12:00 – 23:00**
**Dydd Llun 12:00 – 23:00**
**Dydd Mawrth 12:00 – 23:00**
**Dydd Mercher 12:00 – 23:00**
**Dydd Iau 12:00 – 23:00**
**Dydd Gwener 12:00 – 23:00**
**Dydd Sadwrn 12:00 – 23:00**

**Cerddoriaeth wedi'i Recordio - Tu mewn yn unig:**
**Dydd Sul 12:00 - 00:00**
**Dydd Llun 12:00 - 00:00**
**Dydd Mawrth 12:00 - 00:00**
**Dydd Mercher 12:00 - 00:00**
**Dydd Iau 12:00 - 00:00**
**Dydd Gwener 12:00 - 00:00**
**Dydd Sadwrn 12:00 - 00:00**

**Lluniaeth hwyr yn y nos - Tu mewn yn unig**

**Dydd Sul 23:00 - 23:30**
**Dydd Llun 23:00 - 23:30**
**Dydd Mawrth 23:00 - 23:30**
**Dydd Mercher 23:00 - 23:30**
**Dydd Iau 23:00 - 23:30**
**Dydd Gwener 23:00 - 23:30**
**Dydd Sadwrn 23:00 - 23:30**

**Cyflenwi Alcohol - Ar ac oddi ar yr Eiddo**
**Dydd Sul 12:00 - 23:30**
**Dydd Llun 12:00 - 23:30**
**Dydd Mawrth 12:00 - 23:30**
**Dydd Mercher 12:00 - 23:30**
**Dydd Iau 12:00 - 23:30**
**Dydd Gwener 12:00 - 23:30**
**Dydd Sadwrn 12:00 - 23:30**

**Mae'n debygol y bydd y sefydliad yn cau yn gynharach nag 1, ond mae hyn yn rhoi amser i'r cwsmeriaid orffen eu diodydd. Gallai'r amrywiadau gynnwys:**
**- Nos Galan**
**- Noswyl Nadolig**
**- Dydd Gŵyl San Steffan**

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Mae'r ymgeisydd yn anelu i ymuno a gweithio gyda Chynllun *Pub Watch* Caernarfon.
- Bydd CCTV yn ei le a bydd yn cadw recordiadau am 30 diwrnod. Bydd dau gamera y tu allan i'r adeilad a chwech y tu fewn.
- Bydd gan Jac y Do bolisi dim goddefgarwch ar gyffuriau ac ymddygiad treisgar tuag at aelodau o staff ac aelodau o'r cyhoedd.
- Mae larymau tân wedi cael eu lleoli yn yr eiddo ac mae'r holl lwybrau allanfeydd tân wedi cael eu marcio'n amlwg.
- Bydd llyfr adrodd digwyddiadau / damweiniau hefyd tu ôl y bar i gadw cofnod manwl o unrhyw ddamweiniau a bydd hyn yn cael ei ysgrifennu ar noson y digwyddiad.
- Bydd llygredd sŵn yn cael ei reoli drwy fynedfa gyda drws dwbl.
- Bydd polisi Her 25 yn cael ei weithredu yn yr eiddo a bydd yr holl staff nad ydynt yn berchen ar drwydded bersonol yn derbyn hyfforddiant cydnabyddedig swyddogol mewn atal gwerthiant alcohol i blant dan oed.

**Gweler rhan M o'r cais am y rhestr llawn o fesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.**

## 3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Iechyd yr Amgylchedd | Gwrthwynebiad |

### 3.1 Gwrthwynebiad gan Iechyd yr Amgylchedd

**3.2** Mae'r Adran hefyd wedi bod yn delio gyda'r cais cynllunio ar gyfer y safle hwn. Nid oes gan yr eiddo ganiatâd cynllunio i gael ei ddefnyddio fel tafarn ar hyn o bryd. Nid oedd yr ystyriaethau rheoli sŵn wedi cael sylw digonol yn y cais cynllunio, ac mae swyddogion Gwarchod y Cyhoedd (Iechyd yr Amgylchedd) wedi gwneud cais bod angen ymgymryd ag asesiad sŵn ac

inswleiddio sŵn a mesuriadau lliniaru, er mwyn sicrhau nad yw sŵn o'r eiddo yn achosi niwsans statudol. Mae adeilad gyda thai preswyl wedi'i leoli yng nghefn yr adeilad, fflatiau uwchben a thai preswyl dros y ffordd. Mae'r swyddogion yn bryderus y gallai sŵn ddod o'r safle.

**Gweler yr atodiad ar gyfer y sylwadau llawn gan Iechyd yr Amgylchedd.**

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir i'r Pwyllgor hwn ystyried gwrthwynebiad Iechyd yr Amgylchedd ac ystyried cymhwyso mesurau lliniaru sŵn i'r Atodlen Weithredol os am gymeradwyo'r cais; yn unol â Deddf Trwyddedu 2003.

| PWYLLGOR: | IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| DYDDIAD: | 25 GORFFENNAF 2024 |
| TEITL: | CAIS AM DRWYDDED EIDDO – MOTOCAMP WALES, FFORDD PEN Y CEFN, DOLGELLAU, LL40 2ES |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH AMGYLCHEDD |

1. **CAIS A DDERBYNIWYD**

2. Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Moto camp Wales, Ffordd Pen Y Cefn, Dolgellau, LL40 2ES wedi ei gyflwyno gan Miss Stephanie Jeavons o Motojunkies Ltd. Mae Motojunkies wedi ei leoli yn yr hen glwb Golff yn Nolgellau sydd nawr yn cynnwys Tŷ clwb ac amryw o gaeau o’i hamgylch. Mae’r clwb yn cynnig gwyliau ar gyfer bobl sydd a diddordeb mewn gwyliau beicio, a’r bwriad yw i allu cynnig gwerthu alcohol ac adloniant ar gyfer y cwsmeriaid.

2.1 Mae’r ymgeisydd yn ceisio am drwydded eiddo i: Werthu alcohol i gwsmeriaid sydd yn aros hefo nhw ar y safle (ar yr eiddo) o 14:00 – 02:00, o ddydd Llun i Sul. Cerddoriaeth byw yn ystod gweithgareddau penwythnos (tu fewn a thu allan) rhwng 12:00 a 23:30 ar dydd Gwener, Sadwrn a Sul. Cerddoriaeth wedi recordio (tu fewn a thu allan) eto o 12:00 hyd at 23:30 ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul.

2.2 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a’r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

2.3 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o’r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence |
|---|
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday: 14:00 - 02:00<br>Dydd Llun/Monday: 14:00 – 02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 14:00 – 02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday: 14:00 – 02:00<br>Dydd Iau/Thursday: 14:00 – 02:00<br>Dydd Gwener/Friday: 14:00 – 02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 14:00 – 02:00 |
| **Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**<br>Dydd Sul/Sunday: 12:00 – 23:30<br>Dydd Llun/Monday:<br>Dydd Mawrth/Tuesday:<br>Dydd Mercher/Wednesday:<br>Dydd Iau/Thursday:<br>Dydd Gwener/Friday: 12:00 – 23:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 12:00 – 23:30 |

| **Cerddoriaeth byw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors** |
|---|
| Dydd Sul/Sunday: 12:00 – 23:30<br>Dydd Llun/Monday:<br>Dydd Mawrth/Tuesday:<br>Dydd Mercher/Wednesday:<br>Dydd Iau/Thursday:<br>Dydd Gwener/Friday: 12:00 – 23:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 12:00 – 23:30 |

## 3. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Mae gennym system teledu cylch gyfyng yn weithredol ar y safle, a byddwn hefyd yn ychwanegu mwy.
- Mesuriadau diogelwch tan priodol mewn lle yn cynnwys mannau dianc clir a goleuadau argyfwng yn yr ardaloedd cyhoeddus.
- Arwyddion i fynnu yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel.
- Hyfforddi staff ar sut i ddelio hefo ymddygiad meddwol.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

## 4. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Ychwanegu amodau ychwanegol i'r Drwydded |
| Gwasanaeth Tan | Dim gwrthwynebiad |
| Tîm Bwyd, Gwarchod y Cyhoedd | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gwrthwynebiad |

**3 Sylwadau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**

3.1 Ar ôl adolygu'r cais am drwydded eiddo newydd yn Motocamp Wales, roedd pryderon y gallai'r cais am gerddoriaeth awyr agored (yn fyw ac wedi'i recordio) danseilio'r amcanion trwyddedu, yn enwedig o ran atal niwsans cyhoeddus .

3.2 Yn dilyn Digwyddiad Dros Dro y llynedd, derbyniodd y gwasanaeth gwynion am sŵn. Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion oherwydd sŵn traffig, ond 'roedd cwynion am sŵn o'r eiddo/safle ei hun. Fodd bynnag, roeddem yn fodlon bod y staff wedi delio a'r cwynion hyn gynted ag y cawsant wybod amdanynt.

3.3 Credwyd y gallai caniatáu cerddoriaeth fyw y tu allan tan 23:30 pob dydd Gwener i ddydd Sul achosi niwsans cyhoeddus i drigolion cyfagos. Gallai caniatáu cerddoriaeth wedi'i recordio y tu allan tan 23:30 hefyd annog cwsmeriaid i ymgynnull y tu allan a chynyddu'r risg o achosi niwsans.

3.4 Nid oes gan yr adran unrhyw wrthwynebiad i'r oriau agor, nac i'r oriau ar gyfer cerddoriaeth fyw/wedi recordio a gwerthu alcohol – o dan do.

3.5 Ar ôl trafod a chyfaddawdu gyda'r ymgeisydd, mae'r adran wedi penderfynu caniatáu hyd at 4 digwyddiad y flwyddyn galendr ar gyfer cerddoriaeth awyr agored yn ystod y cyfnod y gofynnwyd amdano, sef 12:00 – 23:30.

## 4 Sylwadau'r Heddlu

4.1 O ran digwyddiadau. Mae'r Heddlu wedi gofyn i'r ymgeisydd ystyried i'r amodau ychwanegol isod gael i'w ychwanegu i'r drwydded:

Cyffredinol:
Creu cynlluniau rheoli diogelwch digwyddiadau manwl ar gyfer pob digwyddiad unigol a fydd yn cael eu trafod gyda Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd, a chytunir â phob aelod o'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch (SAG) a'u gweithredu gan Drefnwyr y Digwyddiad.
Bydd pob digwyddiad yn gofyn am gymeradwyaeth Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd drwy gyflwyno Asesiadau Risg priodol ar gyfer digwyddiadau a Cynllun Rheoli.

Atal Trosedd ac Anhrefn:
Bydd mesurau i atal trosedd ac anhrefn a rheoli torf yn cael eu cytuno gyda'r heddlu ac aelodau eraill o'r SAG a'u hymgorffori yng Nghynllun Rheoli Digwyddiadau a'u gweithredu gan drefnwyr y digwyddiad.

Diogelwch y Cyhoedd:
Bydd gan bob digwyddiad gynllun rheoli digwyddiadau diogelwch pwrpasol. Bydd mesurau i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn cael eu trafod ag aelodau'r SAG a'u hymgorffori yn y Cynllun Rheoli Digwyddiadau a'u gweithredu gan Drefnwyr y Digwyddiad.

## 5. ARGYMHELLIAD

**5.1 Yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, ac o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd; argymhellir bod y Pwyllgor yn CANIATAU y cais cyn belled a bod yr ymgeisydd yn cytuno i gyfaddawd Adran Gwarchod Y Cyhoedd, ac i ychwanegu'r amodau ychwanegol ar gais yr Heddlu.**